# YMATEB LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU I'R ARGYMHELLION A WNAED YN:

# "ASTUDIAETH I ARCHWILIO'R BROSES CEISIADAU CYNLLUNIO YNG NGHYMRU".

1. Mae'r Tabl atodedig yn nodi ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r 16 o argymhellion a wnaed yn yr astudiaeth uchod. Mae tair prif thema i'r argymhellion:

   - Mae a wnelo Thema 1 â **gwella dealltwriaeth** a'r cydberthnasau rhwng y rhai sy'n ymwneud â'r broses ceisiadau cynllunio megis Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr ac ymgyngoreion statudol.
     Mae argymhellion 1, 2, 3, 4 a 5 yn ymwneud â'r thema hon.

   - Mae a wnelo Thema 2 â **diwylliant** y broses ceisiadau cynllunio ac ymdrechu i newid o ddiwylliant o *reoli* datblygu i ddiwylliant o *reoli* datblygu yn rhagweithiol.
     Mae argymhellion 6, 7, 8 a 9 yn ymwneud â'r thema hon.

   - Mae a wnelo Theme 3 â **gweithredu'r** broses ceisiadau cynllunio gan gynnwys y cyfryw faterion â datblygu a ganiateir, trafodaethau cyn gwneud cais, gofynion dilysu, defnydd helaethach o wasanaethau electronig, gwasanaethau ymgynghori ar gyfer ceisiadau cymhleth ac amodau a osodir ar benderfyniadau cynllunio.
     Mae argymhellion 10, 11, 12, 13, 14, 15 ac 16 yn ymwneud â'r thema hon.

2. Mae awduron yr Astudiaeth hon hefyd yn awgrymu partneriaid penodol ar gyfer gweithredu pob un o'r argymhellion. Ni chynhwyswyd y partneriaid hyn yn y Tabl am y bydd trefniadau gwaith cynhwysol Llywodraeth Cynulliad Cymru o reidrwydd yn cynnwys pob un o'r sefydliadau â diddordeb yn ogystal â'r cyhoedd yn y broses o ddatblygu polisïau a chanllawiau newydd. Mae'r cynllun gweithredu a luniwyd gan yr awduron yn Adran 8 o'r Astudiaeth yn nodi'r blaenoriaethau a'r amserlenni ar gyfer gweithredu eu hargymhellion, ac mae'r Tabl atodedig yn cydnabod y blaenoriaethau hyn hyd y gellir.

**Yr Is-adran Gynllunio**
**Llywodraeth Cynulliad Cymru.**

**Mehefin 2010.**

# YMATEB LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU I'R ARGYMHELLION A WNAED YN :

# "ASTUDIAETH I ARCHWILIO'R BROSES CEISIADAU CYNLLUNIO YNG NGHYMRU".

| Y SEFYLLFA YM MIS MEHEFIN 2010 |
|---|
| **Argymhelliad 1: Datganiad Polisi ar Bwysigrwydd Datblygu Economaidd**<br><br>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru lunio datganiad polisi newydd ar y flaenoriaeth y dylid ei rhoi i ddatblygu economaidd. Gallai'r cyfryw ddatganiad ddiweddaru ac ehangu adrannau o Bolisi Cynllunio Cymru ar ddatblygu economaidd a nodi'n glir y pwys y dylid ei roi ar sectorau a mentrau economaidd allweddol fel y'u diffinnir mewn strategaeth economaidd genedlaethol neu Gynllun Gofodol Cymru. Dylai hefyd roi canllawiau penodol ar bwysigrwydd busnesau bach a chanolig. |
| **Ymateb**<br><br>**Derbyn**. Byddwn yn comisiynu ymchwil o dan Raglen Ymchwil Polisi Cynllunio Cymru, gan ddechrau'r broses gaffael ym mis Gorffennaf 2010. Bydd yr ymchwil hon yn gwerthuso polisïau cynllunio ar gyfer datblygu economaidd sy'n bodoli eisoes yn erbyn ein polisïau datblygu economaidd ni ac yn pennu cwmpas gofynion polisi cynllunio yn y dyfodol yn erbyn Rhaglen Adnewyddu Llywodraeth y Cynulliad sy'n datblygu.<br><br>Ar ôl cwblhau'r gwerthusiad, byddwn yn adolygu polisi cynllunio fel y bo'n briodol ac yn llunio Nodyn Cyngor Technegol ar "Adnewyddu Economaidd Cynaliadwy". |
| **Argymhelliad 2: Sicrhau bod y System Gynllunio yn fwy Ymatebol i Fusnesau**<br><br>Dylid cyflwyno cyfres o fesurau i sicrhau bod y system gynllunio yn fwy ymatebol i anghenion busnesau:<br><br>**2a** dylid rhoi systemau syml ar waith i **wella cyfathrebu rhwng busnesau, sefydliadau ac awdurdodau cynllunio** o ran eu gwahanol anghenion a gofynion. Mae angen ystyried fforwm rheolaidd;<br><br>**2b** dylid adnewyddu'r **llawlyfr neu'r canllaw i fusnesau ar y system gynllunio** neu ddarparu fersiwn newydd ohono. Gellid llunio canllaw tebyg neu gyfatebol i ffermwyr a'r rhai sy'n ymwneud â gweithgareddau cefn gwlad neu weithgareddau amaethyddol; |

**2c** dylid ystyried rhoi **statws ymgynghorai neu statws ymgynghorol** anffurfiol neu ffurfiol **i sefydliadau busnes,** adrannau a buddiannau datblygu economaidd (neu dylid rhoi mwy o sylw neu'r un sylw i'w pryderon). Lle y bo'n briodol, gellid nodi meysydd arbennig lle y dylid rhoi mwy o bwys ar berfformiad economaidd;

**2ch.** dylid integreiddio anghenion busnesau bach a chanolig yn well mewn polisi cynllunio (yn genedlaethol fel estyniad i'r Datganiad Polisi newydd ar ddatblygu economaidd a argymhellwyd uchod) ac yn lleol yn y cylch o gynlluniau datblygu lleol sy'n datblygu.

**Ymateb**

**2a Derbyn.** Byddwn yn ystyried, o fewn y flwyddyn galendr gyfredol, rôl Fforwm Cynllunio Cymru (Gr• p Cynghori'r Gweinidog ar gynllunio defnydd tir) a'r angen i sefydlu gr• p newydd o fuddiannau busnes a buddiannau cynllunio ynghyd â systemau eraill y gellid eu defnyddio i wella deialog.

**2b Derbyn.** Byddwn yn adolygu'r cyngor sydd ar gael ar hyn o bryd ac yn llunio llyfryn diwygiedig i fusnesau a chynllunio erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon.

**2c Derbyn** Byddwn yn cynnal adolygiad o ymgyngoreion statudol ac anstatudol fel y nodir yn argymhelliad 7. Yn dilyn y gwerthusiad a amlinellwyd mewn ymateb i argymhelliad 1, byddwn yn llunio pecyn adnoddau i helpu awdurdodau cynllunio lleol i ystyried buddiannau datblygu economaidd cynaliadwy wrth lunio cynlluniau a phenderfynu ar geisiadau cynllunio.

**2ch Derbyn.** Byddwn yn gwerthuso cyfranogiad y gymuned fusnes yn y broses o ddatblygu polisi cynllunio yn genedlaethol ac yn lleol a nodi meysydd i'w gwella.

**Argymhelliad 3: Datganiadau Dylunio a Mynediad**

Egluro cwmpas a chynnwys Datganiadau Dylunio a Mynediad a'r hyn sy'n ysgogi'r gofyniad (drwy lythyr neu ddatganiad Gweinidogol os bydd angen). Dylid ystyried llacio'r ysgogiad ar gyfer y gofyniad a darparu canllawiau llai caeth ar fformat a chynnwys (i adlewyrchu graddfa'r cynigion, eu lleoliad a'r materion a godir ganddynt).

**Ymateb**

**Derbyn.** Byddwn yn anfon llythyr eglurhad at Brif Swyddogion Cynllunio a chyrff eraill â diddordeb i esbonio priodoldeb y Datganiadau Dylunio a Mynediad ym mis Gorffennaf 2010.

**Argymhelliad 4: Proses Canllawiau**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut y gall wella'r ffordd y caiff canllawiau eu dosbarthu a'u cyhoeddi. Am fod yr ystod o ymarferwyr yng Nghymru yn gymharol fach, dylid mabwysiadu dull gweithredu mwy cynhwysol gyda sefydliadau ar y ddwy ochr i'r broses gwneud cais cyn ystyried neu wneud gofynion yn y dyfodol. Byddai hyn yn helpu i roi ffocws ymarferol cliriach i ganllawiau.

**Ymateb**

**Derbyn**. Mae rhanddeiliaid allweddol eisoes yn cymryd rhan yn y gwaith o lunio polisi o ddechrau'r broses fel rhan o arferion gwaith arferol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd prosesau ymgysylltu â busnesau i nodi meysydd i'w gwella fel y nodir yn argymhelliad 2. Dros y tymor canolig yn 2011, byddwn yn ystyried cyflwyno “prawf effaith” i sicrhau bod goblygiadau cyflwyno gofynion polisi newydd yn cael eu hasesu'n llawn a sicrhau bod dulliau gweithredu amgen yn cael eu nodi fel y bo'n briodol.

**Argymhelliad 5: Seibiant ar Ganllawiau Newydd (“Amnest” Canllawiau)**

Dylid cyfyngu neu atal (ac eithrio argymhellion a wneir yn yr adolygiad hwn) ofynion neu ganllawiau sylweddol pellach oni fydd angen deddfwriaethol neu fethiant clir mewn arfer cyfredol. Gellid ategu hyn drwy gyfyngu ar y mathau o gyngor y caiff canllawiau eu dosbarthu ynddynt. Un maes penodol lle y gall fod angen canllawiau ychwanegol yw yn y meini prawf ar gyfer y broses galw i mewn a'r modd y caiff ei gweithredu. Neu yn lle'r argymhelliad hwn gellid cytuno ar flaenraglen adolygu, cyngor a chanllawiau newydd neu ddiwygiedig a'u blaenoriaethu. Byddai hyn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw a'i gwneud yn bosibl i baratoi ar gyfer ystyried a gweithredu'r newidiadau arfaethedig.

**Ymateb**

**Derbyn yn rhannol.** Nid ar chwarae bach y cyflwynir polisi diwygiedig a chanllawiau newydd. Caiff polisi a chanllawiau cynllunio eu hadolygu'n rheolaidd a dim ond pan fo angen gwneud hynny y cânt eu diweddaru. Er enghraifft, cyhoeddwyd fersiwn wedi'i gydgrynhoi o Bolisi Cynllunio Cymru ar ddechrau mis Mehefin i ymgorffori holl Ddatganiadau Cynllunio Interim y Gweinidog a gyhoeddwyd yn flaenorol a newidiadau yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd.

Dylai symud at lunio polisi a rhai dogfennau canllaw yn electronig yn unig helpu i'w lledaenu a'i gwneud yn haws cael gafael arnynt a'u diweddaru. Fel y nodwyd uchod, byddwn yn ystyried cyflwyno “prawf effaith” i asesu goblygiadau cyflwyno gofynion polisi newydd a nodi dulliau amgen o'u gweithredu.

O ran y **broses galw i mewn** gwnaethom ddosbarthu canllawiau diwygiedig ar feini prawf a'r modd y cânt eu gweithredu ym mis Mai 2010. Caiff y canllawiau hyn eu hadolygu'n rheolaidd ac fe'u diwygir fel y bo'n briodol. Bwriedir diwygio a dosbarthu'r nodyn esboniadol a anfonir gyda'r llythyron galw i mewn ym mis Gorffennaf 2010.

---

**Argymhelliad 6**: **Egwyddorion Rheoli Datblygu**

Dylid mabwysiadu egwyddorion rheoli datblygu allweddol mewn datganiad polisi newydd (neu gwblhau Nodyn Cyngor Technegol newydd, sef TAN 17 “Cynllunio a Rheoli Datblygu”. Tasg allweddol yr adran/fersiwn newydd fydd pwysleisio rôl gadarnhaol y broses ceisiadau cynllunio wrth:

a) cyflawni canlyniadau ac amcanion cenedlaethol a lleol penodol;

b) annog (a mynnu) cydweithredu rhwng partïon allweddol cyn gynted â phosibl;

c) ymateb i bawb sy'n ymwneud â'r broses ceisiadau cynllunio neu yr effeithir arnynt gan y broses honno;

ch) mabwysiadu safbwynt ehangach ar y profion y dylai fod yn rhaid i ddatblygiadau newydd eu pasio (i ddisodli dull rhy “fecanistig” o wneud penderfyniadau) a all fod yn fwy ymatebol i bolisi cynllunio cenedlaethol;

d) mireinio'r prawf i nodi y dylai penderfyniadau ddilyn cynlluniau datblygu, i sicrhau ei fod yn gymwys *yn arbennig* i gynlluniau a fabwysiadwyd yn ddiweddar, ond *yn fwy cyffredinol* i gynlluniau h•n nad ydynt yn ymateb i amgylchiadau nac anghenion, cyfraith, arfer na chanllawiau cyfredol;

dd) sicrhau bod gofynion o ran gwneud ceisiadau yn gymesur â'r datblygiad arfaethedig;

e) sicrhau y caiff hyn ei weithredu ym mhob cam o'r broses gwneud cais gan roi sylw arbennig i gyflawni.

Y peth pwysig yw y dylai'r fersiwn newydd bwysleisio bod ymgeiswyr yr un mor gyfrifol am wneud y newidiadau hyn ag awdurdodau lleol, ymgyngoreion statudol ac ymgyngoreion eraill a Llywodraeth y Cynulliad.

---

**Ymateb**

**Derbyn.** Byddwn yn adolygu polisi rheoli datblygu cyfredol ac ystyried diwygiadau a chanllawiau arfer gorau newydd er mwyn ystyried y newidiadau ym maes rheoli datblygu sy'n cael eu datblygu eleni fel rhan o'r prosiect hwn. Cyhoeddir canllawiau newydd yn 2011, wedi'u llywio gan ymgynghoriadau cyhoeddus.

**Argymhelliad 7: Rheoli Datblygu – Gwella Prosesau Ymgynghori**

Dylid adolygu prosesau ymgynghori statudol ac anstatudol. Dylai'r adolygiad ystyried y canlynol:

a) y ffordd y dylid ymdrin yng Nghymru â'r ddyletswydd i ymateb ar gyfer ymgyngoreion statudol a'r cyfle sydd i sefydlu prosesau ymgynghori statudol mwy penodol a mwy safonedig (gan roi sylw i drothwyon/mathau o ddatblygiad na fydd, o bosibl, yn ysgogi ymgynghoriad, yr amserlenni ar gyfer anfon gwybodaeth ac amserlenni ar gyfer derbyn ymatebion a dosbarthu'r cyngor a roddwyd);

b) nifer yr ymgyngoreion statudol a'r cyfle sydd i ddileu neu ychwanegu ymgyngoreion statudol (gan roi sylw arbennig i ddarparwyr cyfleustodau, darparwyr gwasanaethau brys a buddiannau datblygu economaidd neu fusnes). Efallai y bydd hyn yn gofyn am adolygu'r Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu Gyffredinol;

c) sut y gellir cynnwys y grwpiau cyhoeddus a lleol yn effeithiol yn y broses ceisiadau cynllunio a'r penderfyniadau a wneir ganddi;

ch) yr effaith a gaiff arfer ymgynghori cyfredol ar brosesau gwneud penderfyniadau ac amserlenni gwneud penderfyniadau (ac a yw hyn yn gymesur), ynghyd â goblygiadau ymgynghoriadau cyflymach a mwy effeithiol o ran adnoddau;

d) goblygiadau methu â chwrdd ag amserlenni ar gyfer ymateb;

dd) sut y cyflwynir adroddiadau ar ymgynghoriadau ar bob lefel;

e) y cysylltiad rhwng ansawdd gwybodaeth a gyflwynir gyda cheisiadau, yr amser a gymerir i ymateb ac effeithiolrwydd a gwerth yr ymateb;

f) goblygiadau adnoddau (a chostau a manteision) ymgynghoriadau mwy effeithiol.

Gellid achub y blaen o ran yr adolygiad hwn drwy gwblhau'r ymarfer ar TAN17 “Cynllunio a Rheoli Datblygu” (argymhelliad 6) a all gynnwys cwestiynau ar ymgynghori. Gellid darparu wedyn ar gyfer cynigion neu dechnegau allweddol yn y fersiwn terfynol o'r TAN. Fodd bynnag, os oes angen astudiaeth fwy trylwyr a mwy penodol (y daw'r adolygiad hwn i'r casgliad bod ei hangen), yna dylid adlewyrchu canlyniadau'r astudiaeth hon mewn cod ymarfer ar gyfer ymgyngoreion statudol ynghyd â chanllaw cyfatebol i aelodau o'r cyhoedd a grwpiau cymunedol. Gallai sefydliadau sydd eisoes yn treialu eu mesurau eu hunain (gan gynnwys yr Awdurdod Glo, Asiantaeth yr Amgylchedd, CCGC ac Un Llais Cymru) ddechrau ar y gwaith hwn.

**Ymateb**

**Derbyn.** Rydym wedi dechrau gwaith ar nodi cwmpas y trefniadau sydd ar waith mewn polisi, canllawiau a deddfwriaeth gyfredol i ymgyngoreion statudol ac

anstatudol lywio adolygiad o'r prosesau hyn. Byddwn yn dosbarthu papur ymgynghori yn nodi'r trefniadau cyfredol hyn ym mis Gorffennaf 2010. Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, byddwn yn ymgynghori ar gynigion i sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol ac ymgyngoreion statudol ac anstatudol yn ystyried gwahanol fathau o geisiadau cynllunio mewn ffordd gymesur. Byddwn yn gweithio gydag ymgyngoreion statudol i benderfynu ar amserlenni priodol ar gyfer cyflwyno ymatebion i ymgynghoriadau.

**Argymhelliad 8: Rheoli Datblygu – Sicrhau bod Proses a Gweithgarwch Cyflawni yn Fwy Cyson**

Dylid cyhoeddi nodyn arfer gorau ar gyflawni'r swyddogaeth rheoli datblygu gan sefydliadau. Yn lle ceisio nodi strwythurau rheoli cyffredin (sy'n debygol o fod yn anodd iawn ac a allai achosi straen â gweithdrefnau a strwythurau eraill) dylai'r nodyn hwn ymchwilio i fesurau perfformiad yn seiliedig ar ansawdd a boddhad ar gyfer y broses gwneud cais a'r canlyniadau y dylai eu cyflawni. Dylid talu sylw arbennig i ddadgyfuno'r broses sylfaenol o fewn Cynghorau penodol a sut y gellir cymhwyso hyn at bob awdurdod cynllunio i uno'r broses rheoli datblygu a'r gwaith (annibynnol) o fesur a chymharu ei pherfformiad. Dylai prisio prif gamau'r broses gwneud cais a'r difidend a gynhyrchir fod yn elfen bwysig o'r ymarfer hwn, fel y gellir targedu adnoddau prin yn iawn.

**Ymateb**

**Derbyn.** Byddwn yn ystyried canllawiau arfer gorau. Gweler hefyd yr ymateb i Argymhelliad 6.

**Argymhelliad 9: Yr Ymagwedd at Bwyllgor**

Dylid darparu canllaw sylfaenol i awdurdodau lleol ar drefniadaeth Pwyllgor Cynllunio. Dylid sicrhau mai prif ddiben y canllaw hwn yw gwneud profiad y pwyllgor mor rhagweladwy (ac mor gyffredin) â'r broses gwneud cais. Felly dylid canolbwyntio ar safoni (drwy arfer gorau):

a) y broses o gyhoeddi adroddiadau a gwneud cyflwyniadau i'r Pwyllgor ymlaen llaw;

b) yr ymagwedd tuag at siarad yn y Pwyllgor;

c) aelodaeth, gofynion o ran presenoldeb a nifer yr unigolion ar y Pwyllgor;

ch) gofynion hyfforddi gorfodol i aelodau ac yn arbennig i gadeiryddion a/neu ddeiliaid portffolios;

d) cyflwyno cyfnodau i ailystyried os caiff penderfyniadau eu gwneud yn erbyn cyngor swyddogion;

dd) darparu Pwyllgorau arbennig i wrando ar geisiadau arbennig o gyngennus a/neu gyflwyno sesiynau trafod neu holi ac ateb rhagarweiniol arbennig ar gyfer y cynigion hyn;

e) protocoliau a throthwyon ar gyfer gwrando ar geisiadau gan y pwyllgor.

Dylid hefyd ystyried yr arfer yn yr Alban lle mae angen i aelodau sy'n gwyro oddi wrth argymhellion swyddogion ar geisiadau amddiffyn eu penderfyniadau heb gymorth swyddogion mewn apeliadau.

**Ymateb**

**Derbyn**. Byddwn yn adolygu canllawiau cyfredol ac ystyried canllawiau arfer gorau. Gweler yr ymateb i Argymhelliad 6.

**Argymhelliad 10: Ymestyn Datblygu a Ganiateir**

Dylid dilyn (ac os yw'n bosibl, cyflymu) y cynigion a wnaed ym mis Gorffennaf 2009 (yn Lloegr) i ymestyn hawliau datblygu a ganiateir mewn sectorau economaidd allweddol a/neu lunio Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir newydd i Gymru. Dylid rhoi sylw arbennig i'r arwynebedd a'r trothwyon maint a nodwyd yn yr ymgynghoriad ac a oes unrhyw gategorïau penodol yng Nghymru sy'n gofyn am fwy neu lai o reolaeth. Dylid mabwysiadu ymagwedd debyg at y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd a dylai'r ymgynghoriad a gynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad yn 2006 ddarparu sail ddefnyddiol ar gyfer yr ymarfer hwn.

**Ymateb**

**Derbyn.** Os ystyriwn fod yr ymagwedd sydd wedi'i mabwysiadu yn Lloegr yn briodol i Gymru, gwnawn drefniadau deddfwriaethol tebyg. Ni ddylid tybio bod Gweinidogion Cymru yn dilyn yn union yr un ymagwedd ag yn Lloegr.

O ran **Datblygu a Ganiateir** –

- Daeth hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer microgynhyrchu anheddau domestig i rym ym mis Medi 2009.
- Mae hawliau datblygu diwygiedig a ganiateir ar gyfer microgynhyrchu adeiladau annomestig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd a ddaw i ben ar 3 Gorffennaf 2010.
- Ymgynghorir ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer anheddau domestig yn yr hydref.
- Ymgynghorir ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer adeiladau annomestig yn yr hydref.

O ran y **Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd** – caiff casgliad ffurfiol Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch canlyniad ymgynghoriad 2006, a oedd yn cynnwys newidiadau arfaethedig i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yng Nghymru, ei amlinellu mewn llythyr a gyhoeddir gan y Prif Swyddog Cynllunio ym mis Gorffennaf 2010.

**Argymhelliad 11: Ymagwedd Ymarferol at Fân Ddiwygiadau**

Dylid mabwysiadu ymagwedd wedi'i haddasu at fân newidiadau a allai fynd o dan y teitl gweithredol mân newidiadau i gynlluniau cymeradwy. Gallai hyn fabwysiadu ymagwedd debyg i'r cynllun (o dan adran 96a) ar gyfer diwygiadau amherthnasol ond ni fyddai'n gofyn am gyflwyno cais ffurfiol. Fodd bynnag, câi ei hategu gan gyngor ar yr hyn y gellir ei ystyried (hyd yn oed os diffinnir hyn gan yr hyn na chaiff ei hystyried – efallai gan brofion tebyg a sefydlwyd gan hawliau datblygu a ganiateir). Yn achos mân newidiadau perthnasol nid ydym o'r farn bod angen newid ymagwedd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol na gwyro oddi wrthi yn sylweddol (heblaw am y cyfle ardderchog i ymgorffori’r cysyniad mwy uchelgeisiol hwn a'r angen i sicrhau bod pob caniatâd yn cynnwys amod sy'n cynnwys y lluniau a gymeradwywyd - gweler argymhelliad 16).

**Ymateb**

**Derbyn.** Byddwn yn cynnwys hyn mewn papur ymgynghori y bwriedir ei ddosbarthu yn ystod y flwyddyn galendr hon.

**Argymhelliad 12: Trafodaethau Cyn Gwneud Cais - Canllaw Arferion Gorau**

Llunio canllaw ymarferol ar fformat ymgynghoriadau cyn gwneud cais. Dylai'r canllaw hwn geisio nodi nodweddion cyffredin y trafodaethau hyn - a all ddefnyddio cynigion yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol fel man cychwyn - yn ogystal â'r cyfle sydd i ystyried ansawdd y wybodaeth y mae angen ei darparu gyda'r cais. Gall arfer gael ei liwio gan adolygiad byr o berfformiad cyfredol a dylai gael ei gyhoeddi yn gyflym. Fel canllaw ymarferol, byddai'n elwa ar gael ei lunio ar y cyd drwy Gymdeithas y Swyddogion Cynllunio a chynrychiolwyr rhwydwaith ymgynghorwyr RTPI, er y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddosbarthu a/neu gymeradwyo'r canllaw i sicrhau ei fod yn ddigon sylweddol.

Nid oes angen i'r canllaw ymarferol fod yn ddogfen hir (ac ni ddylai fod) ond dylai ymdrin â'r materion allweddol:

a) faint o gyngor a roddir a'i gwmpas;

b) gofynion ymgeiswyr;

c) proses ac amserlenni;

ch) y dull o godi tâl;

d) rôl ymgyngoreion allweddol a grwpiau eraill a'r modd y cânt eu nodi;

dd) rôl gwleidyddion.

**Ymateb**

**Derbyn.** Mewn cydweithrediad â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru ac eraill, byddwn yn bwrw ymlaen eleni â'r gwaith o nodi arfer gorau yng Nghymru. Bydd hyn yn nodi'r trefniadau ar gyfer defnyddwyr a darparwyr y gwasanaeth yn gliriach. Gweler hefyd argymhelliad 6.

**Argymhelliad 13: Gofynion Dilysu**

Dylid cymryd y rhannau gorau o syniadaeth gyfredol am weithgarwch dilysu a'u cymhwyso at Gymru. Fodd bynnag, am fod 25 o awdurdodau cynllunio, dylid rhoi blaenoriaeth amlwg i dair tasg allweddol:

a) Cyhoeddi un rhestr genedlaethol o ofynion dilysu (yn ôl y math o gais a gynigir neu leoliad arfaethedig y datblygiad er enghraifft mewn ardaloedd a ddiogelir). Y bwriad yn y pen draw yw y bydd modd cwtogi ar ofynion lleol a chynllun-benodol ond na phennir unrhyw ofyniad uwch.

b) Dosbarthu gwaith datblygu o dan brif benawdau allweddol fel canllaw i nodi pryd y caiff gofynion penodol eu hysgogi. Dylid rhoi sylw penodol i'r mathau (llai o faint neu gymharol fach) o gynigion datblygu a fydd yn ysgogi gofynion gwybodaeth cyfyngedig i sicrhau y rhoddir digon o wybodaeth i lywio penderfyniadau diogel a chadarn.

c) Cyflwyno confensiwn cenedlaethol sylfaenol ar gyfer enwi a mynegeio dogfennau a chynlluniau (bydd hyn hefyd yn berthnasol i argymhelliad 14).

**Ymateb**

**Derbyn.** Byddwn yn dosbarthu pecyn ymgynghori gan gynnwys cylchlythyr drafft, a chanllawiau drafft ym mis Gorffennaf 2010. Bydd y pecyn hwn yn egluro'r gofynion o ran pa wybodaeth i'w hanfon gyda cheisiadau cynllunio ac yn sicrhau bod gwybodaeth wedi'i thargedu'n well..

**Argymhelliad 14: Cynyddu'r Defnydd o Wasanaethau Cynllunio Electronig**

Hyrwyddo'r defnydd helaethach o wasanaethau cynllunio electronig. Dylid cyflawni hyn yn bennaf drwy:

a) cyflwyno a chyflawni targedau cenedlaethol a lleol ar gyfer cyflwyno ceisiadau yn electronig o fewn amserlen benodol. Am fod 25 o

awdurdodau cynllunio, dylid pennu amcan clir o berfformio cystal â Lloegr neu'n well;

b) sicrhau defnydd helaethach o Ganolfan e-ymgynghori Cymru a Lloegr;

c) sicrhau defnydd helaethach o'r canllawiau rhyngweithiol. Mae cyfle pendant yma i ymestyn y cysyniad hwn i gynnwys defnyddwyr busnesau bach yn ogystal (efallai ar y cyd ag argymhelliad 2b. Byddai gweithredu argymhelliad 9 – newidiadau i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir - yn helpu i gyflymu'r broses o drosglwyddo'r canllaw cyfredol i ddeiliaid tai i Gymru).

ch) safoni mynediad at wybodaeth electronig mewn Awdurdodau Cynllunio Lleol. Dylid diffinio safon ofynnol;

d) cyflwyno confensiwn cenedlaethol sylfaenol ar gyfer enwi a mynegeio dogfennau a chynlluniau, ynghyd â defnyddio dulliau fformatio a sicrhau ansawdd mwy cyffredin.

**Ymateb**

**Derbyn.** Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo gyda'r Porth Cynllunio i gynyddu'r defnydd a wneir o wasanaethau cynllunio electronig. Cyflwynir dros 20% o'r holl geisiadau cynllunio yn electronig ac mae pob un o'r 25 o awdurdodau cynllunio lleol yn cynnig y gwasanaeth dwyieithog hwn ar-lein. Mae'r Ganolfan e-ymgynghori wrthi'n cael ei phrofi yng Nghymru gan sawl awdurdod cynllunio lleol ac ymgyngoreion statudol gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

**Argymhelliad 15: Rhannu Arbenigedd**

Er mwyn delio â'r prinder adnoddau cyfredol a thebygol ac adlewyrchu capasiti a gallu Cymru i weithredu fel un wlad at ddibenion cynllunio, dylid sefydlu adnodd arbenigedd a rennir y gall awdurdodau cynllunio lleol ei ddefnyddio. Gallai'r adnodd fabwysiadu dau ddull gweithredu sylfaenol:

a) byddai'r cyntaf yn dilyn model ATLAS ac yn creu panel canolog o ymgynghorwyr a chynghorwyr y gall awdurdodau lleol alw arnynt pan na fydd arbenigedd lleol ar gael;

b) byddai'r ail yn creu canolfannau rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar ardaloedd sydd o dan bwysau penodol. Dylai hyn ddilyn model Sir Gaerfyrddin a gallai ganolbwyntio ar seilwaith, mwynau, gwastraff, adnoddau naturiol a sectorau ynni.

Mae'n bosibl nad yw'r ddau yn gyfyngedig (ac mae'n debyg nad ydynt yn gyfyngedig o gofio llwyddiant y gr• p mwynau). Pa ddull gweithredu bynnag a fabwysiedir, dylid rhoi blaenoriaeth i gydgysylltu cyngor ac arfer arbenigol o ran dichonoldeb datblygiadau a'r ffyrdd y gellir defnyddio rhwymedigaethau cynllunio i

ysgogi gwaith datblygu yn ogystal â'i reoli. Ymhlith materion allweddol eraill a nodwyd yn ystod yr adolygiad hwn mae diogelwch cymunedol a'r gwasanaethau brys, materion mynediad ac anabledd (yn y ddau faes mae cynnydd ac arbenigedd sylweddol ar gael drwy Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Grwpiau Mynediad); materion glo a mwyngloddio (gyda chynnydd a wnaed gan yr Awdurdod Glo) treftadaeth, archeoleg (drwy waith yr Ymddiriedolaethau Archeolegol) ac adeiladau hanesyddol.

**Ymateb**

**Derbyn yn rhannol.** Byddwn yn ysgrifennu at bob Prif Swyddog Cynllunio ym mis Gorffennaf 2010 gan nodi pa gymorth ymgynghoriaeth dechnegol ac arbenigol y byddwn yn ei gaffael i'w helpu i brosesu ceisiadau cynllunio yn y sector gwastraff a'r sector ynni adnewyddadwy, y nodwyd eu bod yn flaenoriaethau cenedlaethol. Gall y rhain gynnwys technolegau arloesol neu newydd na fydd awdurdodau cynllunio lleol, o bosibl, yn gyfarwydd â hwy. Bydd y cymorth ymgynghoriaeth arbenigol hwn yn cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i benderfynu ar geisiadau cynllunio cymhleth yn amserol.

**Argymhelliad 16: Amodau Cynllunio**

Dylid cyhoeddi nodyn canllaw trylwyr ar ddefnyddio amodau cynllunio yn gyflym. Dylai'r nodyn hwn ganolbwyntio ar y dull y dylid ei fabwysiadu ar gyfer gosod amodau yng Nghymru, ond dylai roi canllawiau penodol ar y canlynol:

a) sut i ddosbarthu amodau yn well;

b) dull mwy cymesur o ymdrin â'r cam cyn cychwyn ac amodau cyn cychwyn neu cyn hysbysu;

c) cynnwys amodau sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran ceisiadau cynllunio;

ch) cynnwys ymgyngoreion statudol a grwpiau eraill yn y broses o ddrafftio amodau a chymeradwyo gwybodaeth a roddwyd i'w cyflawni;

d) defnyddio'r term oni chytunwyd fel arall gyda'r awdurdod cynllunio (a chyfyngiadau'r cyfryw ddull gweithredu neu ei ymestyn pan fydd trydydd parti wedi gofyn am yr amod);

dd) y cysylltiad posibl rhwng amodau a rhwymedigaethau;

e) canllawiau ar y cysylltiad rhwng gweithgarwch monitro a gorfodi effeithiol a chynnwys (a chwmpas) amodau cynllunio;

f) cyflwyno amserlenni ar gyfer cyflawni amodau;

ff) y cyfle sydd i drafod amodau yn ystod y cam cyn gwneud cais a'r cam dilysu i sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gofynion tebygol (ac y gallant wneud neu addasu cyflwyniadau yn unol â hynny).

**Ymateb**

**Derbyn**. Byddwn yn dechrau adolygiad o amodau yn ystod 2011, a fydd yn cynnwys y materion a nodwyd uchod.